Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
DYDDIAD:	**9 Medi 2021**
LLEOLIAD:	O Bell drwy Fideo Gynadledda
TEITL:	Gwasanaeth y Crwner – Ffioedd Trefnwyr Angladdau
DIBEN YR ADRODDIAD:	Ystyried Adroddiad Archwilio Mewnol y Cyngor ar Ffioedd Trefnwyr Angladdau ar gyfer Gwasanaeth y Crwner

CEFNDIR:

Roedd Gwasanaethau Trefnwyr Angladdau ar gyfer y Crwner yn agored i dendr yn 2019. Roedd y contractau â'r cynigwyr llwyddiannus yn dod i rym o 17 Gorffennaf 2019 ymlaen.

Y SEFYLLFA BRESENNOL

Paratowyd adroddiad gan Archwilio Mewnol ynghylch Ffioedd Trefnwyr Angladdau **(Atodiad 1**) Mae Nodyn Esboniadol ar yr Adroddiad wedi'i atodi (gweler **Atodiad 2**). Cafwyd cyflwyniad briffio am y materion sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad cyn hyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ('y Pwyllgor') mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2021. Cyflwynwyd yr Adroddiad hefyd i Grŵp Arweiniol y Cyngor ar 30 Mehefin 2021.

Diweddarwyd Adroddiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol (eithriedig) ar 23 Mehefin 2021. Cyflwynir yr Adroddiad (**Atodiad 1**) a'r Adroddiad Esboniaol (**Atodiad 2**) i'r Pwyllgor er ystyriaeth.

ARGYMHELLION:

Bod y Pwyllgor yn gwneud y canlynol:
1) nodi cynnwys, casgliad ac argymhelliad yr Adroddiad yn **Atodiad 1** a'r Adroddiad Esboniadol (**Atodiad 2**); a
2) gwneud argymhellion o ran camau gweithredu priodol i'w cymryd yng ngoleuni canfyddiadau'r Adroddiad.

Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:
Sicrhau bod gwasanaeth y Crwner yn parhau yn addas i bwrpas.

Swyddog Adrodd:	Elin Prysor
Swydd:	Swyddog Arweinol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a Swyddog Monitro)
Pennaeth y Gwasanaeth:	Elin Prysor, Swyddog Arweinol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro

Acronymau:	Amherthnasol
Dyddiad yr Adroddiad:	12/08/2021
Atodiadau:	**Atodiad 1** – Adroddiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Ffioedd Trefnwyr Angladdau ar gyfer Gwasanaeth y Crwner **Atodiad 2** - Nodyn Esboniadol
Papurau Cefndir:	Amherthnasol
Pwerau Statudol:	Amherthnasol